

Dau faled gan John Jones (Jac Glan-y-gors)
(1766-1821).

Y Sessiwn yn Nghymru;

Dic Sion Dafydd

Y SESSIWN YNG NGHYMRU.

A FUCH chwi erioed mewn Sessiwn yng Nghymru,
Lle mae cyfraith ac ieithoedd yn cael eu cymmysgu ?
Rhai'n siarad Cymraeg, a'r lleill yn rhai Seisnig,
A hwythau'r Cyfreithwyr yn chwareu'r ffon ddwybig.

With their fal de ral lal, &c.

Bu yno'n ddiweddar ryw helynt ar dreial,
A'r Ustus ar ddodwy wrth ddywedyd y ddadal ;
Gast i Gadwalad' o Ben-ucha'r Nant,
Giniawodd ar Oen i Sion Ty'n-y-pant.

Fal de ral, &c.

Ond Sion aeth i gyfraith trwy lawer o boen,
I wneyd i Gadwalad' roi tâl am yr oen ;
A *Chouns'lor* o Lundain, gan godi ei glôs,
A gododd i fyny, to open the Cause.

Fal de ral, &c.

"Gentlemen of the Jury ;

"Cadwallader's Dog of Pen-ucha'r-Nant,
Kill'd a fat Lamb of Sion Ty'n-y-Pant ;
We claim in this Court, without a dispute,
Value of the Lamb, and all costs of suit."

Fal de ral, &c.

Atebai rhyw Gymro, "Mae'n hysbys i mi,
Nad ydyw Cadwalad' yn cadw'r un Ci ;"
A'r *Counsellor* a dd'wedai, "Pray, don't be in haste,
"If he don't keep a *Ci*, he does keep a *Gast*,"

Fal de ral, &c.

A'r Jury ddywedent, "Gwybod 'rym ni,
Na welwyd yn un lle erioed Ast yn Gi ;
Ni ellwch yng Nghymru, gyda'ch cyfraith a'ch Saesneg,
Alw caseg yn geffyl, na cheffyl yn gaseg."

Fal de ral, &c.

Ond Sion Robert Rowland o Ben-ucha'r-Dre',
Ddaeth yno i gyfieithu pob gair yn ei le ;
Ar ol sychu ei drwyn, i gael edrych yn drefnus,
Fe waeddodd am osteg i ddygu'r hen Ustus.

Fal de ral, &c.

"My Lord and Gentlemen of the Jury ;

"Ci is a Dog, and Male is a gwryw,
So Cow is a Buwch, and Bull is a Tarw,
So Gast is a Bitch, with shaking her cynffon,
The same, my Lord, as your Madams in London.

Fal de ral, &c.

"Mae llawer meddyliau, 'rwy'n gofyn eich barn,
Yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar y gair elwir "Carn";
Carn ceffyl, carn twcca, os cyfieithwch o chwith,
Gellwch alw carn-lleidr, *the hilt of a thief.*"

Fal de ral, &c.

A'r *couns'llor* ddywedai, "It appears to me,
This man lost his Lamb by a Gast or a Ci ;
The value of the verdict we easy rejoin—
My Lord, 'twas a *Cigfran* that killed the *Oen*."

Fal de ral, &c.

"Against such a name there is no accusation,
It mentions a dog in this Declaration."

"But what is a *Cigfran*, I can't make a guess."

"My Lord, 'tis a blackbird that lives upon flesh."

Fal de ral, &c.

"A bird that destroyed the innocent creature,
Of course he must be of a ravenous nature ;
He will pick out your eyes, my Lord, in a crack,
Is just like a lawyer, is always in black."

Fal de ral, &c.

Cofiwch i gyd mai gwell yw cytuno,
Rhag ofn cael brathiad, os ewch i gyfreithio,
A myn'd yn y diwedd, ar ol cadw swn,
Fel yr aeth yr *Oen* bach, rhwng *cigfran* a *chŵn*."

Fal de ral, &c.



Yn y Shon Dafydd a
838

DIC SION DAFYDD.

Gwrandewch ar Hanes Dic Shon Dafydd,
Mab Hafotty'r Mynydd mawr ;
A'i daid yn d'wedyd bod ei wreiddyn
O Hil gethin Albion Gawr.

Ni wyddai Dic fawr am lyth'renau,
Na'r modd i ddarllen llyfrau llawn,
Yr holl addysg ga'dd e' gartre',
Oedd nyddu, a chardio, a chodi mawn.

Mewn ffeiriau Dic a fedrai *swagro*
Dan dynu am dano'n eitha' dyn ;
Gwneuthur *Shot* a bygwth *paffio*,
Ac yno hwylio i ddawnsio ei hun.

O'r diwedd Dic a ddaeth i Lundain,
A'i drwyn 'fewn llathen at gynffon llo,
Ar hyd y ffordd a'i bastwn onen,
Yr oedd e'n gwaeddu, "Hai, ptrw, ho !"

Fe'ga'dd le efo *Haberdasher*,
'Ran ei fod e'n ddewisol iach,
I fyn'd i gario amryw geiriach,
Creiau neu ryw binau bach.

Dechreuodd yno fwrw ei hentflew,
Ca'dd sipog las a gwasgod wen ;
Ac i wneyd ei hun yn gryno,
Dechreuodd hwylio i *bowdro* ei ben.

Ond toc fe flinodd ar wasanaeth,
A mynodd helaeth *shop* ei hun,
Er gwyddai'r cryddion a'r teilwriaid
Mai mewn dyled oedd y dyn.

Dechreuodd wybod am y farchnad,
Ymledu, siarad, a chadw sw'n ;
Nid oedd un dyn mor hardd ei ymddygiad,
Mewn *Half Boots* a *Phantaloön*.

'Nol llyncu polyn ac ymchwyydo,
A'i glustiau'n gryno'n rhwbio ei grys,
A thorch o fwslin am ei wddw',
A chylch o fodrwy am ei fys.

Ar Ddiwsul Dic a fyddai'n benaeth,
Mewn *Gig*, a geneth gydag e',
Ac yn gwaeddi mewn rhyw lediaith,
Open the gate, and clear the way.

Yn y Shon Dafydd a
838

Ac wedi gwneyd ei hun i fyny,
 I wlad Cymru fe aeth bob cam,
 Yn ei gadair yn ergydio,
 Yn gwaeddi "Halo" wrth 'Fotty ei fam.

A Lowri Dafydd a dd'wedai ar fyrder,
 "Ai machgen tyner ydwyt ti?"
 "Bachgen!—Tim Cymraeg: *hold your pother,*
Mother; you can't speak with me."

A Lowri a ddanfonai yn union
 Am y Person megys Pab,
 A fedrai grap ar iaith y Saeson,
 I siarad rhwng y fam a'r mab!

Yna'r Person 'nol ymbleidio,
 A'i tarawodd ef a'i ffon,
 Nes oedd Dic yn dechreu bloeddio,
 "O iaith fy mam, mi fedra' hon.

Ac wrth yru yn rhy gynddeiriog,
 'E daflai ei gadair ryw brydnawn,
 Ar ei ben powdwr i bwll mawnog,
 Lle b'uasai gynt yn codi mawn.

Ar brydnawn 'roedd Dic yn yfwr,
 Ac yn ddwnder bloeddiwr blin;
 Ac er na cha'dd ef gartre' ond glasdwr,
 Fe aeth yn ddigynwr' yfwr gwin.

O'r diwedd Dic a aeth cyn dyned,
 Prin y gallai dd'wedyd "Bw,"
 A gofyn iddo byddai ffyliaid,
 "Mr. Davies, how do you do?"

Aeth i gaboli efo biliau,
 Ac i wneyd rai prydiau lawer tric;
 Mae rhai yn d'wedyd mai o'i anfodd,
 Ond Ow! ow! fe dorodd Dic.

A phan ddarfu am ei gynnydd,
 'Roedd rhai yn d'weyd ei fod e'n ffol;
 A'r lleill yn gofyn mewn llawenydd,
 "Wel, Dic Shon Dafydd, dde'st ti'n ol?"

Cymmerwch ofal ar bob adeg,
 Rhag ofn rhedeg i'r un rhic,
 Dyn cymmedrol ddeil i fyny,
 Cofiwch fel y darfu i Dic.